Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Rosalind Evans**

**Bala**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Chwefror 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan blant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae plant yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau ystod dda o weithgareddau tu mewn ac yn yr awyr agored yn ogystal â gallu dewis ymlacio i gael ychydig o amser tawel. Mae plant yn cael cyfle i archwilio eu hardal chwarae yn annibynnol ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn llwyddianus.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'u rôl i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cynnig amgylchedd cartrefol, ac mae eu rhyngweithio'n gynnes a chyfeillgar. Mae hi'n trefnu gweithgareddau a chyfleoedd addas i helpu i ddatblygu sgiliau dysgu, chwarae a chorfforol plant gyda cyfleoedd da i chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddiogel ac yn lân. Mae hi'n goruchwylio plant yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r teganau, yr adnoddau a'r offer yn briodol i oedran y plant, mewn cyflwr addas ac yn ennyn eu diddordeb.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed. Mae hi'n rheoli'r lleoliad yn effeithiol i greu canlyniadau gwell i blant.

## Llesiant — Da

Mae plant yn hapus, yn teimlo’n ddiogel ac wedi ymgartrefu’n dda. Maent yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt yn y lleoliad. Mae plant yn gyfathrebwyr hyderus gan fod eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Yn ogystal, maent yn siarad am eu hoff bethau yn frwdfrydig. Er enghraifft, cafodd plant sgwrs fywiog gyda'r gwarchodwr plant am fynd i barti a chwarae ar y castell bownsio.

Mae plant yn ymdopi’n dda gyda gweithgareddau diddorol y lleoliad, sy’n cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigolion yn dda. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol fel golchi a sychu eu dwylo cyn amseroedd bwyd. Mae plant yn mynd at y gwarchodwr plant yn rhwydd i wneud ceisiadau. Er enghraifft, pan wnaeth plentyn iau ystumio ei fod eisiau rhywbeth i'w fwyta, ymatebodd y gwarchodwr plant ar unwaith a rhoi uwd iddynt ar gyfer brecwast.

Mae plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a’r gwarchodwr plant ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag eraill yn ystod amser bwyd ac yn datblygu agweddau ac arferion da. Mae’r plant yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn bwrpasol. Er enghraifft, roedd ffrindiau'n cymryd eu tro i fynd lawr y sleid a chydweithio'n dda i dacluso eu teganau. Maent yn rhannu'r cynwysyddion yr hambwrdd ddŵr ac yn helpu ei gilydd i lenwi'r twndis.

Mae plant yn dewis gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, gweithiodd ffrindiau gyda'i gilydd fel tîm i adeiladu trac trên a mwynhau gweld y cerbyd batri yn symud ar ei draws. Roedd plant iau yn mwynhau archwilio'r llyfrau oedd ar gael ac yn gwenu ar y lluniau. Maent yn mwynhau ymarfer eu sgiliau cyfri, er enghraifft, roeddent yn cyfri y sleisys banana a mefus ar eu plât. Mae plant yn parhau i ganolbwyntio'n dda. Fe wnaethant drefnu'r briciau siâp gwahanol a'u henwi'n gywir.

Mae plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Maent yn paratoi eu hunain i fynd allan i chwarae yn yr awyr iach a gosod eu platiau yn y sinc ar ôl bwyta. Datblygodd plentyn ei greadigrwydd wrth iddo ddefnyddio teiars wedi'u hail-gylchu a planciau pren i greu cwrs rhwystrau i ymarfer eu sgiliau cydbwyso. Mae plant yn gwneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y gwarchodwr plant.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae’r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion yn syth. Mae perthynas hyfryd yn bodoli rhyngddynt ac maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu eu cyflawniadau’n frwdfrydig.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth briodol o weithdrefnau diogelu ac maent yn gweithredu'r polisïau yn effeithiol. Maent yn cofnodi presenoldeb plant yn brydlon ac mae eu hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu yn gyfredol. Mae’r gwarchodwr plant yn sicrhau bod plant yn cael bwyd iach a bod dŵr a llefrith ar gael iddynt. Mae’r gwarchodwr plant yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn addas ac mae rhieni'n llofnodi'r rhain i ddangos tystiolaeth eu bod wedi cael eu hysbysu. Mae’r gwarchodwr plant yn cynnal driliau tân ond nid yw'n cofnodi'r canlyniad i gynorthwyo gwelliannau i ymarfer yn y dyfodol. Mae’r gwarchodwr plant yn annog plant i olchi eu dwylo sy’n eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn llwyddiannus. Mae gweithdrefnau newid clytiau yn unol â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol.

Mae’r gwarchodwr plant yn cynnig gofal cynnes a chyfeillgar i’r plant ac maent yn eu cyfarch gyda gwên a llais tyner. Maent yn canmol y plant yn gadarnhaol am eu hymdrechion a'u llwyddiannau. Er enghraifft, canmolodd blant am ddefnyddio moesau hyfryd a bod yn garedig wrth eu ffrindiau.

Mae’r gwarchodwr plant yn ymateb i anghenion unigol y plant, mae hi’n sicrhau amgylchedd cynhwysol ac yn rheoli rhyngweithiadau yn dda. Mae’r gwarchodwr plant yn trefnu profiadau dysgu a chwarae addas i’r plant ac yn eu cefnogi mewn ffordd sensitif a chadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd da i godi eu hymwybyddiaeth o'u cymuned leol. Er enghraifft, dangosodd ffotograffau fod y plant wedi mwynhau eu hamser yn darllen llyfrau yn y llyfrgell, mynd am dro i fwydo gafr, ymweld â'r orsaf dân, eistedd mewn ambiwlans, ymarfer taflu cerrig mân i mewn i lyn a chwarae yn y goedwig.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae’r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel a glân.

Maent yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol gan nodi'r peryglon posibl i blant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae hi wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau. Mae’r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod gwybodaeth glir ar gael ar sut i ddelio ag achos brys. Mae hi'n sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n dda.

Mae’r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod gosodiad yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant drwy eu galluogi i symud o gwmpas yn rhydd gan wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae teganau ac adnoddau wedi eu gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant sy’n eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau am yr hyn maent eisiau chwarae ag e.

Mae’r gwarchodwr plant yn trefnu ardaloedd dysgu a chwarae addas ac mae dewis priodol o adnoddau naturiol ar gael i feithrin medrau ieithyddol, rhifedd a hunanymwybyddiaeth plant. Mae yna ardal addas i blant storio eu heitemau personol ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Mae ychydig o adnoddau amlddiwylliannol ar gael i godi ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas ehangach. Mae’r gwarchodwr plant yn defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu a’u hailddefnyddio i ddatblygu dychymyg plant trwy chwarae rôl.

Mae’r gwarchodwr plant yn sicrhau bod plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau corfforol. Mae hi wedi gweithio'n galed i ddatblygu ardal awyr agored hyfryd gydag ystod o adnoddau ac offer wedi'u hail-gylchu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan blant ganlyniadau llesiant da.  Mae hi'n rheoli ei lleoliad  yn effeithiol.

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o bwrpas sydd yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i helpu rhieni a gofalwyr i wneud dewis gwybodus am y gofal a ddarparerir. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Cyflwynodd yr asesiad o ddatganiad gwasanaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r gwarchodwr plant yn hysbysu AGC o unrhyw newidiadau i'r lleoliad. Mae'r gwarchodwr plant wedi ymrwymo i ddarparu cynnig gweithredol y Gymraeg.

Mae'r gwarchodwr plant wedi ysgrifennu adroddiad yn adolygu ansawdd gofal ac yn nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Maent wedi casglu sylwadau gan rieni a phlant ond nid wedi cynnwys sylwadau'r plant er mwyn eu helpu i werthuso'r lleoliad yn llawn.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi hi a phersonau sy'n byw ar y safle gwasanaeth datgelu a gwahardd (GDG)  cyfredol. Mae hi'n sicrhau bod ei hyfforddiant yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant wedi casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol yng nghofnodion unigol y plant i sicrhau ei bod yn diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio ar ddatblygu cyfathrebu gyda phob rhiant a gofalwyr ac yn defnyddio ap electronig i roi gwybod i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn bob dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod plant yn cael profiadau da allan yn y gymuned i wella eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| Standard 24 - Safety | Ystyriwch gofnodi canlyniad driliau tân er mwyn gallu gwneud gwelliannau i ymarfer yn y dyfodol. |
| Standard 18 - Quality assurance | Cynnwys barn a sylwadau plant yn yr adroddiad yn adolygu ansawdd y gofal i werthuso'r lleoliad yn llawn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/08/2023